Jeremy Miles AS/MS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JMEWL/11199/21

David B Jones OBE DL a Philip Blaker
Cadeirydd a Phrif Weithredwr
Cymwysterau Cymru

corporategovernance@Qualificationswales.org

12 Hydref 2021

Annwyl David a Philip,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Medi yn rhoi crynodeb o'r gwaith a wnaed hyd yn hyn mewn perthynas â rhaglen Cymwys ar gyfer y Dyfodol Cymru a'r camau nesaf.

Rwy'n falch o weld eich ymrwymiad parhaus i ganolbwyntio ar gynnal trafodaethau ystyrlon â'r proffesiwn addysg i gyd-greu cynigion. Rwyf wedi gweld eich gwahoddiadau diweddar yn gofyn i'r proffesiwn addysg yng Nghymru ymuno â gweithgorau a grwpiau rhanddeiliaid. Er fy mod yn cydnabod bod ein hysgolion a'n colegau'n parhau i wynebu cyfnod heriol, rwy'n credu bod hwn yn gyfle euraid i'r proffesiwn addysg yng Nghymru gael cyfrannu at y prosiect hwn, sy'n gyfle unwaith mewn cenhedlaeth. Rwy'n gobeithio y bydd cryn ddiddordeb ynddo a byddaf yn ceisio hyrwyddo'r cyfle hwn ac annog cyfranogiad eang.

Eto, cysur yw gweld eich bod yn rhoi pwysigrwydd a phwyslais ar sicrhau bod y gwaith o ddiwygio cymwysterau yn mynd rhagddo i gyd-fynd a chefnogi uchelgais ac egwyddorion sylfaenol y Cwricwlwm i Gymru.

Rwyf hefyd yn ddiolchgar i chi am yr ymgysylltu helaeth â'm swyddogion er mwyn helpu i fireinio'r ffyrdd o feddwl ac i sicrhau bod hyn â'r Cwricwlwm i Gymru yn cyd-fynd â'i gilydd yn glir. Fel y gwyddom o brofiad gwledydd eraill sydd wedi cychwyn ar y gwaith o ddiwygio'u system addysg, ni ellir tanbrisio rôl cymwysterau os ydym am wireddu'r gwir gyfleoedd sydd gan y cwricwlwm newydd i'w cynnig. Yn y cyd-destun hwn, rwy'n gwerthfawrogi'ch ymrwymiad i ystyried dulliau gweithredu arloesol ac i ail-greu cynnwys ac asesiadau ar gyfer cymwysterau yn y dyfodol, heb anghofio'r gwaith yr ydych yn ei wneud ar y cynnig ehangach o gymwysterau i bobl ifanc 14-16 oed. Rwy'n cydnabod hefyd rhyngddibyniaethau clir rhwng datblygu cymwysterau newydd a'r trefniadau gwerthuso, gwella ac atebolrwydd i'r dyfodol, ac rwyf wedi gofyn i'm swyddogion barhau i gydweithio'n agos â chi wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo.

Rydym wedi trafod o'r blaen y cyfle i chi ddefnyddio'r Rhwydwaith Cenedlaethol er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i drafod â'r proffesiwn addysg wrth i ni baratoi i gyflwyno'r cwricwlwm, ac rwy'n gwybod bod y trafodaethau hyn wedi hen ddechrau a bod sgyrsiau wedi'u cynllunio drwy'r Rhwydweithiau Cenedlaethol o dymor y gwanwyn 2022.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn ddiweddar, fe wnaethom drafod yn fras eich cynigion mewn perthynas â chymwysterau ar gyfer y Gymraeg a sut y gall y rhain gyd-fynd â nodau uchelgeisiol Cymraeg 2050 a chyfrannu'n effeithiol atynt. Gwn fod ein swyddogion yn cydweithio'n agos ar y cynigion hyn a'r maes polisi ehangach, ac edrychaf ymlaen at eich cyfarfod maes o law i drafod yr agweddau hyn yn fanwl.

Hoffwn ddiolch i chi unwaith eto am y diweddariad cynhwysfawr ar raglen Cymwys ar gyfer y Dyfodol ac rwy'n cydnabod yr ymdrech rydych wedi'i wneud i gadw'r rhaglen allweddol hon i fynd, a hynny yn wyneb heriau nas gwelwyd mo'u tebyg o'r blaen oherwydd y pandemig. Mae'n amlwg ei bod yn gyfnod heriol i'r sector addysg o hyd, ac y bu'n rhaid i chi ymateb i'r pwysau sydd ar ysgolion a cholegau er mwyn sicrhau bod y proffesiwn addysg yn gallu cyfrannu at y gyfres o gymwysterau yn y dyfodol. Byddaf yn parhau i gydweithio â chi i hwyluso hyn ac rwyf wedi gofyn i'm swyddogion i barhau i edrych am ffyrdd o'ch cefnogi yn y broses hon.

Yn gywir,



Jeremy Miles AS/MS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language